Yn ystod y tymor aeth heibio bu nifer o weithgareddau yn yr ysgol. Cafwyd cyfle un prynhawn i weld y fan sy'n mynd o amgylch y wlad i sicrhau fod gan bob un sy'n berchen ar deledu drwydded.

Diddorol iawn oedd cael ar ddeall sut oedd pethau'n gweithio.

Llongyfarchiadau i nifer sydd wedi ennill clod ac anrhydedd dros yr wythnosau diwethaf. Daeth Jason Davies yn ail yng nghystadleuaeth traws gwlad Cenedlaethol yr Urdd ac yn ail hefyd ym mhencampwriaeth Dyfed yng Nghaerfyrddin. Ym maes arlunio y cafodd Charlotte Read lwyddiant - ennill cystadleuaeth cynllunio cerdyn Pasg dan nawdd Banc Barclays. Enillodd wobr ariannol iddi ei hun ynghyd ag un sylweddol i'r ysgol.

Bu'n dymor llwyddiannus i'r tîm pêl-droed - cyrraedd y brig drwy ennill pob gêm. Cyraeddasant y rownd derfynol yn y gystadleuaeth i ysgolion y cylch a hefyd ennill eu hadran yn y gemau pump bob ochr ond boddi yn ymyl y lan fu eu hanes yn y rownd derfynol. Rhaid canu clodydd y merched hefyd. Enillwyd y darian hoci ganddynt a daethant i'r rownd derfynol yn y gystadleuaeth pêl-droed pump bob ochr i ferched.